



PWYLLGOR CYFLAWNI RHAGLENNI – PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

🕒 09:30-10:25

📅 14 Mai 2024

📍 MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
David Selway	DS	Cadeirydd	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Is-gadeirydd y Bwrdd	IGDC
Marian Wyn Jones	MJ	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC
Simon Jones	SJ	Cadeirydd	IGDC
Marian Jones	MJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	IGDC
Skylar Green	SG	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	Aelod Annibynnol	IGDC



Acronymau			
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	WPAS	Gweinyddiaeth Cleifion Cymru
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	BAU	Busnes fel Arfer
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
BIPAB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
LLC	Llywodraeth Cymru	PDC	Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Preifat Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni Iechyd Digidol a Gofal Cymru.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb <ul style="list-style-type: none"> Rowan Gardner - Aelod Annibynnol 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	Datganiadau o Fuddiannau Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	Materion sy'n codi Nid adroddwyd unrhyw faterion.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
2.1	Cofnodion Preifat Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: GYMERADWYO cofnodion preifat y cyfarfod diwethaf.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 – PRIF AGENDA			



3.1	<p>Cofnod Gweithredu</p> <p>Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:</p> <ul style="list-style-type: none">❖ Trefnu Sesiwn Datblygu sydd wedi'i harchebu ar gyfer 8 Awst 2024. <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflenwi Rhaglenni:</p> <p>NODI'R Cofnod Gweithredu.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.2	<p>Adroddiad Trosolwg Rhaglenni</p> <p>Cyflwynwyd gan Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth.</p> <p>Nodwyd mai'r Byrddau Rhaglen sy'n gyfrifol am bennu statws RAG o hyder cyflenwi ar gyfer pob rhaglen.</p> <p>Nodwyd bod gwaith mewn perthynas â graddio RAG mwy cyson ar draws y portffolio yn parhau i wneud cynnydd ac y byddai'n cael ei adrodd i gyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor.</p> <p>Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn ymwneud â llythyrau cadarnhau cyllid ar gyfer nifer o raglenni heb eu cwblhau.</p> <p>Nodwyd cynnydd da ymhlith y rhaglenni canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Moddion: prawf cysyniad EPS wedi'i gwblhau a chaffael EMPA ar amser.• Ap GIG Cymru - nodwyd 170,000 o ddefnyddwyr a 60,000 o bresgripsiynau rheolaidd.• Aeth plattform NDR yn fyw ddiwedd Awst 2023. <p>Penderfynodd y Pwyllgor Cyflenwi Rhaglenni:</p> <p>NODI'R Adroddiad Trosolwg Rhaglenni.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.3	<p>Cofrestr Risg Gorfforaethol Breifat:</p> <p>Cyflwynwyd gan Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor yr un risg breifat a neilltuwyd i'r Pwyllgor a chawsant eu sicrhau gan y camau lliniaru sydd ar waith i fynd i'r afael â'r risg.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Cyflenwi Rhaglenni:</p> <p>NODI'R Gofrestr Risg Gorfforaethol Breifat.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.4	<p>Diweddariad Gweithredu WICIS</p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am statws presennol rhaglen WICIS.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi



	Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI Diweddariad Gweithredu WICIS		
3.5	Adolygiad Diagnosteg Strategol – Argymhellion Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad. Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R Adolygiad Diagnosteg Strategol – Argymhellion.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.6	Rhaglen Digidol Gofal Llygaid Cyflwynwyd gan Sam Hall (SH), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl a amlygodd y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y rhaglen wedi trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i IGDC ym mis Mehefin 2023. • Roedd adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i gynnwys yn y papurau a oedd yn rhoi sicrwydd ar drefniadau pontio'r rhaglen. Daeth canfyddiadau'r Archwiliad i'r casgliad bod IGDC wedi mabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr at drosglwyddo'r rhaglen. • Nodwyd bod lefel y risg gweddilliol etifeddol yn uchel iawn i IGDC. • Roedd IGDC wedi derbyn cais gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun 'diwrnod sero' erbyn 14 Mehefin 2024. • Cyflwyno Microsoft 365 - bwriedir ei gwblhau ym mis Awst 2024. Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R Diweddariad ar y Rhaglen Digidol Gofal Llygaid.	I'w Drafod	
RHAN 4 - MATERION I GLOI			
4.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill Ni chodwyd unrhyw fater brys.	Nodwyd	
4.2	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 01 Awst 2024	Nodwyd	